

**Penderfyniad a gyhoeddwyd o dan baragraff 69(2) o
Ddeddf Llywodraeth Leol 2000
Rhif Achos: 202600920**

Crynodeb o'r gŵyn

Honnwyd nad oedd yr Aelod, ynghyd ag awdurdodau eraill, wedi bod o gymorth wrth fynd i'r afael â phryderon yr Achwynydd ynghylch aflonyddwch, sbwriel a niwsans cyhoeddus, a achoswyd gan dwristiaid yn parcio'n agos at ei chartref. Awgrymwyd hefyd y gallai gwybodaeth gyfrinachol fod wedi'i rhannu'n amhriodol ac nad yw'r Cyngor yn ddiuedd yn eu prosesau gwneud penderfyniadau oherwydd cyfranogiad aelodau'r Cyngor mewn grŵp cymunedol lleol.

Sut rydym yn penderfynu a ddylid ymchwilio

I benderfynu a ddylid ymchwilio i achos o dorri'r Cod Ymddygiad ("y Cod"), rhown brawf 2 gam ar waith. Yn gyntaf, rydym yn ystyried a oes tystiolaeth i awgrymu y gallai'r Cod fod wedi'i dorri. Yn ail, rydym yn ystyried a yw cynnal ymchwiliad i'r materion y cwynir amdanynt er budd y cyhoedd. Rydym yn ystyried sawl ffactor budd y cyhoedd megis:

- difrifoldeb yr ymddygiad honedig
- a yw'r aelod wedi camddefnyddio safle o ymddiriedaeth neu wedi ceisio ennill, drostynt eu hunain neu eraill, ar draul y cyhoedd
- a oes angen ymchwilio i gynnal hyder y cyhoedd mewn aelodau etholedig
- a yw ymchwiliad yn gymesur o dan yr amgylchiadau neu, a fyddai cyfeirio at Bwyllgor Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru yn briodol, pe gaiff ei brofi.

Fy Mhenderfyniad

(1) A oes tystiolaeth i awgrymu y gallai fod achosion o dorri'r Cod ymddygiad wedi digwydd.

Mae'r materion y cwynwyd amdanynt yn annhebygol o fod yn gyfystyr â thorri'r Cod. Dywedodd y gŵyn, yn ogystal â chyfeirio ei phryderon at yr Aelod, fod yr Achwynydd hefyd wedi cysylltu â sawl awdurdod gwahanol a chynrychiolwyr etholedig eraill.

Mae yna anfodlonrwydd ynghylch yr hyn y mae'r Achwynydd yn ei weld fel diffyg ymgysylltiad, a rhwystredigaeth bod penderfyniadau gan gynnwys ble y dylid gosod llinellau melyn yn y pentref neu oriau agor ynghylch maes parcio lleol, yn effeithio'n annheg ar ei chartref. Ymatebodd yr Aelod i gael ei hysbysu am y gŵyn i ddweud ei bod wedi ymateb i'r Achwynydd, neu eraill a allai fod yn gysylltiedig â hi, ar nifer o achlysuron.

Mae gan yr Ombwdsmon awdurdodaeth i ystyried dau fath o gŵyn:

Yn gyntaf, cwynion sy'n honni bod aelod o awdurdod perthnasol wedi torri'r Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan eu hawdurdod. Yn ail, cwynion am gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth gan rai cyrff cyhoeddus rhestredig yng Nghymru (ac sy'n cynnwys cynghorau a chynghorau tref neu gymuned).

Mae awdurdodaeth yr Ombwdsmon mewn perthynas â chwynion Cod Ymddygiad o fewn cylch gwaith penodol iawn – hynny yw ystyried a oes tystiolaeth bod gweithredoedd personol Cynghorydd a enwir yn awgrymu y gallent fod wedi torri'r Cod Ymddygiad.

Mae'r Ombwdsmon yn cyhoeddi canllawiau i aelodau ar eu

rhwymedigaethau o dan y Cod, a sut y bydd ei swyddfa'n ystyried cwynion am weithredoedd aelodau ac a ydynt yn debygol o fod yn groes i'r Cod. Fodd bynnag, wrth asesu cwyn, mae'r Ombwdsmon yn barnu pob achos yn ôl ei rinweddau ei hun. Yn yr achos hwn, nid oes digon o dystiolaeth i gefnogi'r farn y gellid ystyried gweithredoedd unigol yr Aelod fel toriad posibl o'r Cod.

Er na all yr Ombwdsmon ystyried yr agweddau hyn ar y gŵyn yn erbyn yr Aelod a restrir fel mater Cod Ymddygiad, gellid ystyried y gŵyn fel cwyn

weinyddol yn erbyn y Cyngor (fel corff yn ei rinwedd ei hun) neu'r corff cyhoeddus perthnasol, yn dibynnu a ydynt yn dod o dan awdurdodaeth yr Ombwdsmon. Ni allaf ddweud ei bod yn gŵyn y byddai'r Ombwdsmon yn ei derbyn i'w hymchwilio, gan y byddai angen ei hasesu'n iawn yn gyntaf. Byddai angen cyflwyno cwyn o'r fath ar wahân ynghyd â chopïau o unrhyw ohebiaeth a gyfnewidiwyd â'r Cyngor neu'r corff cyhoeddus perthnasol.

Roedd awgrym hefyd y gallai gwybodaeth gyfrinachol fod wedi'i rhannu'n amhriodol ac nad yw'r Cyngor yn ddiuedd yn eu prosesau gwneud penderfyniadau oherwydd cyfranogiad aelodau'r Cyngor mewn grŵp cymunedol lleol. Ni ddarparwyd tystiolaeth i gadarnhau'r agweddau hyn o'r gŵyn, ac ni fydd yr Ombwdsmon yn ymchwilio onid oes tystiolaeth rhesymol gryf i awgrymu y gallai fod yr Aelod dan sylw wedi torri'r Cod.

(2) A oes angen ymchwilio er budd y cyhoedd

Nid yw'r ymddygiad y cwynir amdano yn bodloni cam cyntaf y prawf, fel y nodir uchod, felly, nid oes angen ystyried ail gam y prawf.

Canlyniad

Ni ddylid ymchwilio i'r gŵyn.

Penderfyniad a gyhoeddwyd o dan baragraff 69(2)



Ddeddf Llywodraeth Leol 2000

Rhif Achos: 202601265

Crynodeb o'r gŵyn

Honnwyd bod yr Aelod wedi ymddwyn yn amhriodol pan bostiodd lun o ardd yn dangos arwyddion o gasglu nwyddau ar Facebook a gofyn i'r cyhoedd wneud sylwadau a allent fyw drws nesaf. Teimlai'r Achwynydd y gallai'r person sy'n gyfrifol am y mater casglu nwyddau wneud â chymorth a chefnogaeth, yn hytrach na llys barn cyhoeddus.

Sut rydym yn penderfynu a ddylid ymchwilio

I benderfynu a ddylid ymchwilio i achos o dorri'r Cod, rhown brawf 2 gam ar waith. Yn gyntaf, rydym yn ystyried a oes tystiolaeth i awgrymu y gallai'r Cod fod wedi'i dorri. Yn ail, rydym yn ystyried a yw cynnal ymchwiliad i'r materion y cwynir amdanynt er budd y cyhoedd. Rydym yn ystyried sawl ffactor budd y cyhoedd megis:

- difrifoldeb yr ymddygiad honedig
- a yw'r aelod wedi camddefnyddio safle o ymddiriedaeth neu wedi ceisio ennill, drostynt eu hunain neu eraill, ar draul y cyhoedd
- a oes angen ymchwilio i gynnal hyder y cyhoedd mewn aelodau etholedig
- a yw ymchwiliad yn gymesur o dan yr amgylchiadau neu, a fyddai cyfeirio at Bwyllgor Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru yn briodol, pe gaiff ei brofi.

Fy Mhenderfyniad

(1) A oes tystiolaeth i awgrymu y gallai fod achosion o dorri'r Cod ymddygiad wedi digwydd.

Mae'r materion y cwynwyd amdanynt yn annhebygol o fod yn gyfystyr â thorri'r Cod.

Dangosodd y sgrin luniau a ddarparwyd, lun o ardd yn dangos arwyddion o gasglu nwyddau. Roedd y sylw a oedd ynghlwm wrth y post yn darllen "Fasech chi'n hoffi byw drws nesa i fyfwr?". Darparwyd sgrin lun o'r sylwadau a adawyd hefyd a oedd yn cynnwys sylwadau a oedd yn feirniadol o'r casglu, ond hefyd sylw, o bosibl gan yr Achwynydd, a ddywedodd "Mae'n amlwg bod rhywun angen cymorth. Tydi rhoi hwn ar Facebook ddim yn helpu". Roedd proffil yr Aelod yn adlewyrchu ei statws fel Cynghorydd.

Rhoddodd yr Aelod sylwadau mewn ymateb i gael ei hysbysu am y gŵyn gan egluro nad oedd ganddi unrhyw fwriad i dramgwyddo wrth wneud y post a'i bod wedi dileu'r post yn fuan ar ôl darllen y gwrthwynebiad. Mae hi wedi bod mewn cysylltiad â phobl leol sy'n byw gerllaw'r safle ers dros ddwy flynedd, sydd wedi bod yn cwyno am y sefyllfa wrthi hi ac wrth y Cyngor Cymuned Lleol. Roedd y post yn ymgais i dynnu sylw at yr angen i weithredu ond nid oedd wedi'i fwriadu i fod yn bersonol.

Dim ond pan fydd aelod o gyngor yn cyflawni swyddogaethau fel aelod neu'n ceisio dibynnu mewn rhyw ffordd ar ei statws fel aelod y mae'r Cod yn berthnasol fel arfer. O ystyried bod tudalen Facebook bersonol yr Aelod yn cyfeirio'n glir at ei rôl fel Cynghorydd, rwyf o'r farn iddi roi'r argraff ei bod yn gweithredu fel cynrychiolydd y Cyngor a bod y Cod Ymddygiad yn ymwneud yn llawn â postiadau ar y dudalen honno.

Pan fo cwyn yn ymwneud ag ymddygiad Cynghorydd sy'n arfer ei hawl i ryddid mynegiant, rhaid i'r Ombwdsmon ystyried yn ofalus a fyddai ymchwiliad ac unrhyw sancsiwn a allai gael ei osod yn y pen draw ar yr aelod yn ymyrraeth gymesur â'r hawliau hynny.

Wrth weithredu fel aelod etholedig a mynegi barn wleidyddol neu gynnal busnes gwleidyddol, rhoddir amddiffyniad gwell i ryddid mynegiant aelod, yn fwy felly nag aelod cyffredin o'r cyhoedd. Ymhellach, fel gwleidyddion, mae'n debygol y rhoddir amddiffyniad i aelodau hyd yn oed lle gall yr iaith a ddefnyddir ganddynt fod yn ymfflamychol, ar yr amod bod y ffocws arni yn wleidyddol. Nid yw sylwadau gwleidyddol wedi'u cyfyngu i siambr y Cyngor a gallant gynnwys sylwadau y gall aelodau eu gwneud yn gyffredinol. Mae mynegiant gwleidyddol yn ymestyn i bob mater o weinyddiaeth gyhoeddus. Mae'r hawl i ryddid mynegiant yn amddiffyn mynegiant poblogaidd ac amhoblogaidd, gan gynnwys lleferydd a allai synnu eraill.

Fodd bynnag, nid yw hawl aelod i ryddid mynegiant yn absoliwt a rhaid ei chydbwysu yn erbyn yr angen i amddiffyn hawliau a buddiannau eraill. Nid yw'r egwyddorion cyfreithiol ar y mater hwn yn darparu ffiniau clir ar gyfer yr hyn sy'n dderbyniol, a'r hyn nad yw'n dderbyniol, a rhaid ystyried pob achos yn ôl ei rinweddau ei hun. Nid yw rhyddid mynegiant yn ddiderfyn a pho fwyaf difrifol yw'r ymddygiad dan sylw, y mwyaf cyfiawn yw cyfyngu ar fynegiant gan ddefnyddio darpariaethau'r Cod Ymddygiad.

Rwyf wedi ystyried bod yr Aelod yn ceisio ateb pryderon etholwyr ac nad oedd yn fwriad ganddi greu tramgwydd ond tynnu sylw at yr hyn yr oedd hi'n ei ystyried yn fater yr oedd angen gweithredu arno. Nid oes tystiolaeth o iaith wael wedi'i defnyddio, ond roedd gan y post y gallu i achosi cywilydd i unrhyw un yr effeithiwyd arno. Yn fy marn i, gellir dweud yn rhesymol fod y post yn dod o fewn meysydd rhyddid mynegiant ac, er y gallai fod wedi achosi tramgwydd i'r Achwynydd a/neu aelodau eraill o'r cyhoedd, nid yw, yn fy marn i, yn dystiolaeth o dorri'r Cod.

Er fy mod yn gwerthfawrogi'n llwyr y gallai'r Achwynydd fod wedi cael ei dramgwyddo gan bost yr Aelod ac yn teimlo y gallai fod wedi bod ffyrdd eraill o fynd i'r afael â'r sefyllfa, nid yw'r dystiolaeth a ddarparwyd yn dynodi ymddygiad gwarthus na sarhaus a fyddai'n effeithio ar y Cod ac yn cyfiawnhau ymyrryd â hawl yr Aelod i lefaru'n wleidyddol ar yr achlysur hwn. Fodd bynnag, dylai'r Aelod fod yn ymwybodol o sut y gellir dehongli neu ganfod sylwadau ar gyfryngau cymdeithasol.

(2) A oes angen ymchwilio er budd y cyhoedd

Nid yw'r ymddygiad y cwynir amdano yn bodloni cam cyntaf y prawf, fel y nodir uchod, felly, nid oes angen ystyried ail gam y prawf.

Canlyniad

Ni ddylid ymchwilio i'r gŵyn.

Penderfyniad a gyhoeddwyd o dan baragraff 69(2)

- **Ddeddf Llywodraeth Leol 2000**
Rhif Achos: 202601300

○

Crynodeb o'r gŵyn

Honnwyd bod yr Aelod wedi darparu datganiad i gynghrair bêl-droed leol gan wneud honiadau maleisus ac anwir yn erbyn yr Achwynydd ynghylch ymddygiad mewn gêm bêl-droed i blant dan 12 oed ac ar achlysuron eraill.

Sut rydym yn penderfynu a ddylid ymchwilio

I benderfynu a ddylid ymchwilio i achos o dorri'r Cod, rhown brawf 2 gam ar waith. Yn gyntaf, rydym yn ystyried a oes tystiolaeth i awgrymu y gallai'r Cod fod wedi'i dorri. Yn ail, rydym yn ystyried a yw cynnal ymchwiliad i'r materion y cwynir amdanynt er budd y cyhoedd. Rydym yn ystyried sawl ffactor budd y cyhoedd megis:

- difrifoldeb yr ymddygiad honedig
- a yw'r aelod wedi camddefnyddio safle o ymddiriedaeth neu wedi ceisio ennill, drostynt eu hunain neu eraill, ar draul y cyhoedd
- a oes angen ymchwilio i gynnal hyder y cyhoedd mewn aelodau etholedig
- a yw ymchwiliad yn gymesur o dan yr amgylchiadau neu, a fyddai cyfeirio at Bwyllgor Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru yn briodol, pe gaiff ei brofi.

Fy Mhenderfyniad

(1) A oes tystiolaeth i awgrymu y gallai fod achosion o dorri'r Cod ymddygiad wedi digwydd.

Ar adeg yr ymddygiad y cwynir amdano, nid oedd yr aelod yn gweithredu fel cynghorydd ond fel unigolyn preifat. Fel arfer, mae'r Cod ond yn berthnasol pan fydd aelod o gyngor yn cyflawni swyddogaethau fel cynghorydd neu'n ceisio dibynnu mewn rhyw ffordd ar ei statws fel cynghorydd.

Yng ngoleuni hyn, nid yw'r rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Cod (gan gynnwys y gofyniad i ddangos parch ac ystyriaeth i eraill) yn berthnasol i'r sylwadau a wnaeth yr Aelod yn rhinwedd ei swydd bersonol. Fodd bynnag, mae'r paragraffau canlynol yn berthnasol p'un a yw aelod yn gweithredu yn rhinwedd ei swydd broffesiynol neu bersonol:

6(1)(a) - Rhaid i chi beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eich swydd neu ar eich awdurdod,

- 7(a) - rhaid i chi beidio â defnyddio eich safle yn amhriodol; a
- 7(b) - rhaid i chi beidio â defnyddio adnoddau eich awdurdod yn amhriodol.

Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod yr Aelod wedi defnyddio ei swydd neu adnoddau'r cyngor yn amhriodol. Felly, allwn dim ond ystyried, wrth wneud y sylwadau, a yw'r Aelod wedi dwyn anfri ar ei Chyngor neu ar ei swydd fel cynghorydd.

Mae cyfraith achosion ar gymhwyso'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau yng Nghymru wedi sefydlu, er mwyn canfod torri'r ddarpariaeth "anfri", rhaid i ymddygiad aelod effeithio ar enw da eu Cyngor a/neu rôl aelod etholedig a mynd y tu hwnt i effeithio ar eu henw da personol.

Esboniodd yr Achwynydd, yn ogystal â honiadau ynghylch yr hyn a ddigwyddodd mewn gêm bêl-droed a gohiriwyd, ei fod yn dweud bod yr

Aelod hefyd wedi'i gyhuddo o wneud ystum aflednais ati hi ac eraill pan oedd hi'n sefyll mewn maes parcio wrth iddo yrru ei gerbyd o'r fan honno, a dywedodd fod hynny'n amhosibl gan nad yw erioed wedi gyrru.

Teimlai'r Achwynydd, wrth wneud y datganiad hwn, fod yr Aelod wedi dangos diffyg gonestrwydd a chywirdeb ac wedi methu â chynnal Egwyddorion Nolan. Mae'r Cod yn seiliedig ar yr Egwyddorion hyn sydd wedi'u cynllunio i hyrwyddo'r safonau uchaf posibl. Mae'r Egwyddorion hyn yn tynnu ar y 7 Egwyddor Bywyd Cyhoeddus a nodwyd gyntaf yn Adroddiad Nolan 1995 "Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus", sy'n cynnwys "gonestrwydd" ac "cywirdeb a phriodoldeb" yn eu plith.

Mae ymddygiad anonest a thwyllodrus yn gallu dwyn anfri ar awdurdod Aelod, hyd yn oed os yw'r ymddygiad yn digwydd yn ei fywyd preifat. Fodd bynnag, nid wyf yn ystyried mai ymddygiad sy'n debygol o fod wedi dwyn anfri ar swydd yr Aelod fel cynghorydd neu'r Cyngor, ar yr achlysur hwn.

Nid oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod y sgwrs neu sylwadau'r Aelod wedi cael eu hadrodd yn y wasg neu ei bod wedi cyrraedd unrhyw gynulleidfa y tu hwnt i'r gêm bêl-droed a'r gynghair yn ymchwilio i'r digwyddiad. Mae'n debygol, pe bai unrhyw un wedi bod yn ymwybodol o'r sgwrs neu sylwadau'r Aelod, y byddai eu meddwl yn bod hwn yn anghydfod preifat annymunol yn cael ei ddarlledu'n gyhoeddus. Oherwydd amserlen gyfyngedig y sgwrs, y ffaith ei bod yn un digwyddiad, nad oedd adroddiad i'r wasg am y digwyddiad a byddai effaith y digwyddiad wedi bod yn gyfyngedig a dan reolaeth, mae'n debygol y byddai unrhyw un sydd â gwybodaeth am y ffeithiau yn ystyried bod hwn yn fater sydd â mawr ddim perthnasedd i'r cyngor perthnasol na'i rôl swyddogol neu wleidyddol fel Aelod. Mae hefyd yn bosibl bod yr Aelod wedi gwneud camgymeriad yn hytrach na chamliwio'r sefyllfa'n fwriadol. Felly, ni ystyrir bod hyn yn ymddygiad sy'n debygol o ddwyn anfri ar ei swydd neu ei hawdurdod, ar yr achlysur hwn.

(2) A oes angen ymchwilio er budd y cyhoedd

Nid yw'r ymddygiad y cwynir amdano yn bodloni cam cyntaf y prawf, fel y nodir uchod, felly, nid oes angen ystyried ail gam y prawf.

Canlyniad

Ni ddylid ymchwilio i'r gŵyn.

**Penderfyniad a gyhoeddwyd o dan baragraff 69(2) o
Ddeddf Llywodraeth Leol 2000
Rhif Achos:202604071**

Crynodeb o'r gŵyn

Honnwyd bod yr Aelod, drwy fethu ag ymateb i ohebiaeth a anfonwyd ato ynghylch cerbyd a adawyd, wedi methu â chyflawni ei ddyletswydd i gynnal y gyfraith, wedi methu â dangos parch ac ystyriaeth (4(b)) ac wedi dwyn anfri ar ei swydd/awdurdod (6(1)(a)).

Sut rydym yn penderfynu a ddylid ymchwilio

I benderfynu a ddylid ymchwilio i achos o dorri'r Cod, rhown brawf 2 gam ar waith. Yn gyntaf, rydym yn ystyried a oes tystiolaeth i awgrymu y gallai'r Cod fod wedi'i dorri. Yn ail, rydym yn ystyried a yw cynnal ymchwiliad i'r materion y cwynir amdanynt er budd y cyhoedd. Rydym yn ystyried sawl ffactor budd y cyhoedd megis:

- difrifoldeb yr ymddygiad honedig
- a yw'r aelod wedi camddefnyddio safle o ymddiriedaeth neu wedi ceisio ennill, drostynt eu hunain neu eraill, ar draul y cyhoedd
- a oes angen ymchwilio i gynnal hyder y cyhoedd mewn aelodau etholedig
- a yw ymchwiliad yn gymesur o dan yr amgylchiadau neu, a fyddai cyfeirio at Bwyllgor Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru yn briodol, pe gaiff ei brofi.

Fy Mhenderfyniad

(1) A oes tystiolaeth i awgrymu y gallai fod achosion o dorri'r Cod ymddygiad wedi digwydd

Mae'r materion y cwynwyd amdanynt yn annhebygol o fod yn gyfystyr â thorri'r Cod.

Darparodd yr Achwynydd gopi o e-bost a anfonodd, dyddiedig

7 Awst 2026, at y Cyngor, yr Aelod a Heddlu Gogledd Cymru, yn nodi ei phryderon ynghylch y cerbyd a adawyd.

Ymatebodd yr Aelod ar ôl cael gwybod am y gŵyn, gan nodi mai dim ond 10 diwrnod oedd rhwng y dyddiad yr anfonwyd yr e-bost gan yr Achwynydd a'r adeg y cafodd ef y hysbysiad. Nid oedd yn derbyn bod methu ag ymateb i e-bost o fewn llai na 10 diwrnod yn torri'r Cod.

Ychwanegodd ei fod wedi dod yn ymwybodol o'r mater yng nghanol mis Gorffennaf 2026 ar ôl gweld trafodaeth amdano ar y cyfryngau cymdeithasol ymhlith trigolion lleol. Darparodd dystiolaeth ei fod wedi bod yn gohebu â'r Cyngor ynghylch y mater hwn ers 21 Gorffennaf. Anfonodd yr Aelod ragor o ohebiaeth ar 29 Gorffennaf, 4 Awst, 5 Awst ac 16 Awst, gan ddangos ei ymdrechion penderfynol i symud y mater yn ei flaen.

Dywedodd hefyd ei fod wedi cysylltu â Heddlu Gogledd Cymru ynghylch y mater hwn, wedi derbyn galwad ffôn ganddynt tua diwedd mis Gorffennaf, a darparodd tystiolaeth o ohebiaeth â nhw ar 16 Awst 2026. Dywedodd ei fod hefyd wedi cysylltu â'r Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau.

Cyfeiriodd gohebiaeth ddiweddarach a ddarparwyd gan yr Achwynydd at y diffyg camau a gymerwyd gan "Gwynedd Council officers", a oedd, yn ei barn hi, yn dangos "severe maladministration and unreasonable operational delay."

Mae gan yr Ombwdsmon awdurdodaeth i ystyried dau fath o gŵyn: yn gyntaf, cwynion sy'n honni bod aelod o awdurdod perthnasol wedi torri'r Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan eu hawdurdod.

Yn ail, cwynion ynghylch camweinyddu neu fethiant gwasanaeth gan gyrff cyhoeddus penodol a restrir yng Nghymru (sy'n cynnwys cynghorau a chynghorau tref neu gymuned).

Mae awdurdodaeth yr Ombwdsmon mewn perthynas â chwynion am y Cod Ymddygiad o fewn cylch gwaith penodol iawn – sef ystyried a oes dystiolaeth bod gweithredoedd personol Cynghorydd penodol yn awgrymu efallai eu bod wedi torri'r Cod Ymddygiad.

Mae'r Ombwdsmon yn cyhoeddi canllawiau i aelodau ynghylch eu rhwymedigaethau o dan y Cod, a sut y bydd ei swyddfa'n ystyried cwynion am gamau gweithredu aelodau ac a ydynt yn debygol o fod yn groes i'r Cod. Fodd bynnag, wrth asesu cwyn, mae'r Ombwdsmon yn barnu pob achos ar ei rinweddau ei hun. Yn yr achos hwn, nid oes digon o dystiolaeth i gefnogi'r farn y gellid ystyried camau gweithredu unigol yr Aelod fel toriad posibl o'r Cod. Er y gallai fod wedi bod yn ddefnyddiol pe bai'r Aelod wedi rhannu'r camau yr oedd yn eu cymryd gyda'r

Achwynydd, mae'r dystiolaeth a ddarparwyd ganddo yn dangos yn glir ei fod wedi bod yn mynd ar drywydd y mater hwn ar ran etholwyr.

Er na all yr Ombwdsmon ystyried yr agweddau hyn ar y gŵyn yn erbyn yr Aelod fel mater yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad, gellid ystyried y gŵyn fel cwyn weinyddol yn erbyn y Cyngor (fel corff ynddo'i hun) neu'r corff cyhoeddus perthnasol, yn dibynnu ar a ydynt o dan awdurdodaeth yr Ombwdsmon. Ni allaf ddweud y byddai'r Ombwdsmon yn derbyn y gŵyn hon i'w hymchwilio, gan y byddai angen ei hasesu'n briodol yn gyntaf. Byddai angen cyflwyno cwyn o'r fath ar wahân, ynghyd â chopïau o unrhyw ohebiaeth a gyfnewidiwyd â'r Cyngor neu'r corff cyhoeddus perthnasol.

(2) A oes angen ymchwilio er budd y cyhoedd

Nid yw'r ymddygiad y cwynir amdano yn bodloni cam cyntaf y prawf, fel y nodir uchod, felly, nid oes angen ystyried ail gam y prawf.

Canlyniad

Ni ddylid ymchwilio i'r gŵyn.

**Penderfyniad a gyhoeddwyd o dan baragraff 69(2) Deddf
Llywodraeth Leol 2000
Rhif Achos: 202604064**

Crynodeb o'r gŵyn

Cyflwynwyd y gŵyn gan aelod ("yr Achwynydd"), oedd yn honni fod yr Aelod wedi ceisio ei symud o'i swydd yn anghyfreithlon gan roi cynghorydd amhrofiadol arall yn ei lle.

Penderfyniad

(1) A oes tystiolaeth i awgrymu y gallai'r Cod Ymddygiad fod wedi ei dorri.

Dywedodd yr Achwynydd bod yr Aelod yn canfasio cynghorwyr eraill i gael pleidlais o ddiffyg hyder ynddi hi, ac roedd hi yn tybio fod hyn yn ymdrech uniongyrchol i rwystro ac ymyrryd gydag ymchwiliad oedd yn mynd rhagddo.

Mae'r Cod yn gofyn fod Aelodau yn trin eraill gyda pharch ac ystyriaeth. Nid yw hyn yn golygu na all cynghorwyr gymryd rhan mewn dadlau cadarn gyda gwrthwynebwyr gwleidyddol, ond dylai hyn fod yn gymesur. Mae Erthygl 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ("ECHR") yn darparu yr hawl i ryddid mynegiant a gwybodaeth, yn amodol i rai cyfyngiadau. Mae hawl mynegiant yn hawl sy'n gymwys i'r holl wybodaeth a syniadau, nid dim ond y rhai a ffafrir gan gyd-gynghorwyr. Mae gan Aelodau warchodaeth uwch pan fo sylwadau a wneir ganddynt o natur wleidyddol.

Pe byddai Aelod yn mynegi y farn a honnwyd, dyna oedd ei farn am lywodraethiant y Cyngor a'i bwyllgorau ac nid yn ymosodiad personol ar y Achwynydd ei hun. Efallai nad yw'r Achwynydd yn cytuno nac yn hoffi barn yr Aelod ond nid oedd y datganiad honedig yn sarhaus, yn warthus, yn brawychu nac yn tanseilio, gan nad oedd yn ddatganiad gwleidyddol, byddai yn manteisio ar y warchodaeth uwch sydd ar gael.

Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth i gefnogi haerriad yr Achwynydd bod yr Aelod wedi ceisio canfasio cynghorwyr eraill i gael pleidlais o ddiffyg hyder. Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth bod yr Aelod wedi cymryd camau gweinyddol ei hun neu wedi ceisio perswadio neu roi pwysau ar unrhyw un arall i wneud hynny. Honnodd yr Achwynydd bod yr Aelod yn ceisio rhwystro ac ymyrryd gydag ymchwiliad oedd yn mynd rhagddo oedd yn ymwneud ag asiantaethau allanol. Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r agwedd hon o'r gŵyn.

Ni fydd yr Ombwdsmon yn ymchwilio oni bai bod tystiolaeth eithaf cryf i awgrymu bod yr aelod dan sylw wedi torri'r Cod.

Er bod y sylwadau y gallai'r Aelod fod wedi eu gwneud wedi achosi peth pryder i'r Achwynydd, nid yw'r dystiolaeth a ddarparwyd yn arwydd o ymddygiad gwarthus na sarhaus a fyddai yn golygu bod y Cod yn weithredol ac yn sicrhau amharu ar hawl yr Aelod i areithio yn wleidyddol ar yr achlysur hwn.

(2) A oes angen ymchwiliad er budd y cyhoed

Nid yw'r ymddygiad sy'n destun cwyn yn cwrdd â cham cyntaf y prawf, fel a nodir uchod, ac oherwydd hynny, nid oes angen ystyried ail gam y prawf.

Canlyniad

Ni ddylid ymchwilio i'r gŵyn

Cwynion: 202604080, 202604081, 202604082, 202604084, 202604085, 202604086, 202604088, 202604089

Crynodeb o'r gŵyn

Honnwyd bod un o'r aelodau oedd yn bresennol mewn cyfarfod wedi torri'r Cod Ymddygiad ("y Cod") trwy ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol i'r cyfryngau. Gwnaed y gŵyn gan un o'r aelodau oedd yn bresennol yn y cyfarfod gan ofyn i'r Ombwdsmon ymchwilio i sefydlu pa un o'r aelodau a ddatgelodd y wybodaeth. Cyfeiriodd yr achwynydd bob aelod o'r pwyllgor gan gynnwys ei hun at yr Ombwdsmon.

Penderfyniad

(1) A oes tystiolaeth i awgrymu y gallai fod wedi bod yn torri'r Cod Ymddygiad.

Mae'r Cod yn glir na ddylai aelodau ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth y dylid ei ystyried yn rhesymol fel natur gyfrinachol. Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd gan yr Achwynydd yn awgrymu y dylid ystyried y wybodaeth a drafodwyd yng nghyfarfod y Cyngor yn rhesymol fod wedi cael ei ystyried yn gyfrinachol. Mae'r dystiolaeth hefyd yn awgrymu bod y wybodaeth hon wedi'i datgelu i'r cyfryngau yn ddiweddarach. Ar ôl ystyried y wybodaeth a ddarparwyd gan yr Achwynydd, nid wyf yn argyhoeddedig bod tystiolaeth sy'n nodi'r Aelod fel yr unigolyn penodol sydd wedi datgelu'r wybodaeth ac yn absenoldeb tystiolaeth sy'n dangos bod yr Aelod yn gyfrifol am y datgeliad, ni all yr Ombwdsmon ymchwilio. Efallai y byddwn yn defnyddiol pe bawn i'n esbonio mai rôl yr Ombwdsmon yw ystyried ac, pan fo'n briodol, ymgymryd ag ymchwiliadau i gwynion bod aelod unigol wedi torri'r Cod, yn hytrach na sefydlu'n annibynnol hunaniaeth yr unigolyn sy'n gyfrifol am y datgeliad.

(2) A oes angen ymchwiliad er budd y cyhoedd Nid yw'r ymddygiad y cwynir amdano yn bodloni cam cyntaf y prawf, fel y nodir uchod, felly, nid oes angen ystyried ail gam y prawf. Canlyniad Ni ddylid ymchwilio i'r gŵyn.